NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

BWLETIN
i Athrawon Cyflenwi

Llythyr gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) am gyflogi athrawon cyflenwi

Yn dilyn ymgyrch hirdymor a phryderon a godwyd gan NASUWT, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi cyhoeddi llythyr erbyn hyn i egluro'r sefyllfa mewn perthynas â defnyddio athrawon cyflenwi.

Roedd NASUWT wedi cyflwyno tystiolaeth oedd yn dangos bod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru'n atal athrawon cyflenwi rhag gweithio mewn ysgolion am eu bod wedi camdybio mai dim ond yr athrawon cyflenwi hynny sy'n gweithio drwy'r 'dewis ddarparwr' (y cwmni New Directions) allai gael eu defnyddio mewn ysgolion.

Mae CLlLC wedi cyhoeddi cyngor a chyfarwyddyd erbyn hyn i awdurdodau lleol yng Nghymru i ddweud yn glir nad y 'dewis ddarparwr' yw'r unig ddarparwr athrawon cyflenwi a bod ysgolion yn rhydd i gyflogi athrawon cyflenwi cymwysedig o le bynnag sy'n briodol yn eu barn hwy, gan gynnwys drwy eu cyflogi'n uniongyrchol.

I weld manylion llawn y llythyr a gyhoeddwyd gan CLlLC, ewch i **https://www.nasuwt.org.uk/advice/supply-teacher.html** a dilynwch y ddolen i athrawon cyflenwi yng Nghymru.

Yn dilyn cyhoeddi llythyr CLlLC, bydd gan NASUWT ddiddordeb mewn clywed gan athrawon cyflenwi os oes awdurdod lleol sy'n parhau i wrthod eu cyflogi am nad ydynt yn gweithio drwy'r 'dewis gynigydd'.

Mae NASUWT yn dal i ffafrio awdurdodau lleol sy'n trefnu cronfeydd athrawon cyflenwi ac ysgolion sy'n cyflogi athrawon yn uniongyrchol er mwyn rhoi'r hawl i bob gweithiwr dderbyn cyflog a phensiwn llawn, ac mae'n parhau i ddisgwyl i'r Llywodraeth, awdurdodau lleol a chonsortia addysg i ddiogelu athrawon cyflenwi'n llawn.

siaradwch â ni

029 2054 6080
rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
www.nasuwt.org.uk

AelodaethAM DDIM

DEWCH I YMUNO Â NASUWT CYMRU Undeb yr Athrawon The Teachers' Union HEDDIW

aelodaeth am ddim am y flwyddyn gyntaf

o'r dyddiad yr ymunwch â ni*

Online www.nasuwt.org.uk neu ar y ffôn ar 03330 145550

Ydych chi'n aelod yn

Bydd pob aelod sy'n gwahodd athrawon eraill yn llwyddiannus i ymuno â nhw yn NASUWT yn derbyn **tocynnau rhodd Love2shop hael.**

Y cwbl sydd ei angen yw rhoi eich enw a'ch rhif aelodaeth iddynt i'w nodi pan fyddent yn ymuno.

*Bydd aelodau newydd sy'n ymuno â NASUWT yn cael y flwyddyn gyntaf am ddim pan ddewisant dalu eu tanysgrifiad drwy ddebyd uniongyrchol yn y dyfodol.

GWAHODDWCH FFRIND I YMUNO Â NI